



DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd: Gweithiwr Prosiect 1

Adran: Gwasanaethau Plant

Yn atebol i'r: Rheolwr Gwasanaethau Plant

Cyfrifoldebau Rheolwr Llinell ac am Gyllideb: Dim

Pwrpas y Swydd:

Rhoi cyngor a chefnogaeth a darparu gwasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn unol â nodau ac amcanion y gwasanaeth. (Mae Manylion y Gwasanaeth perthnasol wedi'u hatodi).

Y Prif Gyfrifoldebau:

O ran Defnyddwyr y Gwasanaeth

O dan arweiniad a chyfarwyddyd:

- Gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, ar sail un i un neu mewn grŵp, gan ddefnyddio amrywiaeth o ymyriadau i nodi eu hanghenion ac i sicrhau canlyniadau cadarnhaol.
- Gweithio mewn partneriaeth â rhieni/gofalwyr er mwyn eu grymuso a'u galluogi i sicrhau canlyniadau gwell i'w plant.
- Cydweithio â gwasanaethau plant, asiantaethau iechyd a gwasanaethau cymunedol eraill er mwyn darparu'r gwasanaeth mwyaf effeithiol i blant, pobl ifanc a theuluoedd.
- Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r Gwasanaeth.
- Rhoi gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant ar waith.

O ran Adnoddau

- Bod yn gyfrifol am gyfarpar/adnoddau a ddefnyddir yn y gwaith o ddydd i ddydd.
- Bod yn gyfrifol am gofnodi nodiadau achosion a chyfrannu at adroddiadau achosion.

O ran Pobl (Staff, Myfyrwyr, Gwirfoddolwyr)

- Dim cyfrifoldeb am reoli/goruchwylio staff, myfyrwyr na gwirfoddolwyr heblaw am helpu a chynghori cydweithwyr yn ôl yr angen. (Gweler yr Atodiad).

O ran Iechyd a Diogelwch

- Hyrwyddo, monitro a chynnal iechyd a diogelwch yn yr amgylchedd gwaith

Mae'r Disgrifiad Swydd a Manyleb y Person a geir yma yn adlewyrchu dyletswyddau'r swydd fel y maent ar hyn o bryd, a gallant newid yn ôl anghenion Rhaglen yr Adran. O bryd i'w gilydd ac yn ôl yr angen, mae'n bosibl y gofynnir i'r sawl a benodir ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n gymesur â chyflog a gofynion cymhwysedd y swydd hon.

Bydd archwiliadau cyn cyflogaeth yn ofynnol ar gyfer y rôl.



MANYLEB Y PERSON

Mae'r holl feini prawf yn hanfodol oni nodir eu bod yn ddymunol (D).

Teitl y Swydd: Gweithiwr Prosiect 1

Cofiwch:

Rhaid i ymgeiswyr ddangos ar eu ffurflen gais eu bod yn defnyddio'r sgiliau sy'n cael eu hamlinellu isod ar hyn o bryd, neu eu bod wedi eu defnyddio mewn swydd, addysg, hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli ac ati yn y gorffennol.

Addysg/Gwybodaeth

- Cymhwyster gorfodol ar gyfer ymarfer, lle y bo hynny'n berthnasol. (DALIER SYLW: Yn achos staff sy'n cynorthwyo ac yn gweithio ochr yn ochr â staff eraill mewn gwaith gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed, mae'n debygol y bydd yn ofynnol yn y dyfodol iddynt feddu ar gymhwyster NVQ2 o leiaf. Yn achos staff a fydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed, a hynny heb oruchwyliaeth, bydd yn ofynnol iddynt feddu ar gymhwyster NVQ3.)
- Bod yn ymwybodol o ffactorau sy'n effeithio ar blant, pobl ifanc a theuluoedd agored i niwed, a'r problemau maent yn eu hwynebu (e.e. anfantais, tloidi, anabled).
- Bod yn ymwybodol o angen plant i deimlo'n ddiogel.

Profiad

- Rhywfaint o brofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc ond nid oes rhaid i'r profiad hwn fod mewn lleoliad gwaith ffurfiol.

Sgiliau/Gallu

- Gallu gwranddo ar blant a phobl ifanc a chyfathrebu'n effeithiol â nhw
- Gallu gweithio fel aelod o dîm
- Gallu cofnodi nodiadau achosion yn gywir ac yn glir, gan ddefnyddio'r sgiliau ysgrifennu a TG o'r safon angenrheidiol
- Gallu rhoi gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant Barnardo's ar waith.

Amgylchiadau

- Bydd yn rhaid i staff gydymffurfio â Pholisi Ysmygu Barnardo's, sy'n gwahardd pobl rhag ysmygu yn y gwaith

Sylfaen a Gwerthoedd Barnardo's a'i God Ymddygiad yng nghyswllt Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Gweithredu Sylfaen a Gwerthoedd Barnardo's a'i God Ymddygiad yng nghyswllt Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ym mhob un o'i feysydd gwaith:

- Parchu gwerth unigryw pob unigolyn

- Annog pobl i gyflawni eu llawn botensial
- Gweithio mewn gobaith
- Arddel stiwardiaeth gyfrifol

ATODIAD – Gweithiwr Prosiect 1

Nid oes rhaid i ddeiliad y swydd graidd Gweithiwr Prosiect 1 ysgwyddo cyfrifoldeb am reoli/goruchwylio staff, myfyrwyr na gwirfoddolwyr.

Fodd bynnag, efallai y bydd sefyllfaoedd yn codi pryd mae'n ddiogel ac yn briodol i staff profiadol ar lefel Gweithiwr Prosiect 1 oruchwylio gwirfoddolwyr a lle gellir diwallu anghenion datblygu. Dylai unrhyw gyfrifoldeb ychwanegol o'r fath gael ei atodi i broffil craidd y swydd/yr unigolyn.

I'w lenwi gan y Tîm Cyflog a Gwobrwyo / Tîm Pobl

	Enw	Cod
Graddfa	P18B	
Teulu Swyddi	Gweithrediadau	O
Is-deulu Swyddi	Craidd / ETS / FP (fel y bo'n briodol)	OC / OE / OF
Lefel yn y Sefydliad	Lefel Broffesiynol 1	P1